



Catalyddion Gofal

MICRO FENTRAU GORLLEWIN CYMRU

Safonau a Chanllawiau ‘Gwneud e’n lawn’ (‘Doing it Right’)

Mae’r ddogfen hon yn gosod allan y Safonau ‘Gwneud e’n lawn’ (‘Doing it Right’) y mae’n rhaid i ficrofentrau ymrwymo eu hunain iddynt er mwyn bod yn rhan o gyfeiriadur a rhwydwaith cefnogi Catalyddion Gofal.

Diffinnir microfenter gan y prosiect Catalyddion Gofal fel busnes neu fenter bychan cwbl annibynnol ag iddynt lai na 8 (yn cyfateb i fod yn gweithio’n amser llawn) o weithwyr / gwirfoddolwyr sy’n cynnig gwasanaethau er mwyn helpu pobl i wella eu hiechyd neu les.

Mae’r ddogfen hefyd yn darparu mwy o ganllawiau manwl o’r safonau “Doing it Right” ar gyfer y microfentrau a defnyddwyr y gwasanaethau hyn er mwyn iddynt ddeall beth mae ‘gwneud e’n lawn’ yn ei olygu yn ymarferol. Cliciwch ar y pwyntiau isod yn y testun glas er mwyn gweld canllawiau mwy manwl.

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw prosiect Catalyddion Gofal na’i bartneriaid yn achredu nac yn cymeradwyo gwasanaethau ar [gyfeiriaduron Sir Benfro / Sir Gâr / Ceredigion](#). Nid yw’r prosiect Catalyddion Gofal a’i bartneriaid yn gallu gwarantu ansawdd na bodlonrwydd gydag unrhyw un o’r gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw fenter o fewn y cyfeiriadur nac ychwaith dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw wasanaethau a ddarperir gan unrhyw fenter sy’n cael ei rhestru ar y cyfeiriaduron hyn.

Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth gan gleientiaid ac yn cadw’r hawl i dynnu mentrau oddi ar y cyfeiriadur os nad ydynt yn cwrdd â Safonau ‘Gwneud e’n lawn’ neu’n gweithredu mewn ffordd sy’n annïogel neu amhroffesiynol. Gallwch anfon unrhyw adborth at lee.james@planed.org.uk / 07535 810003 (Sir Benfro), tracey.jones@planed.org.uk / 07789 793228 (Sir Gâr) neu sue.lewis@planed.org.uk / 07442 681883. Bydd unrhyw bryderon neu gwynion yn cael eu prosesu gan ddilyn [Polisi Pryderon a Chwynion](#) y prosiect.

Safonau ‘Doing it Right’

Bod yn ddiogel ac yn gyfreithiol:

- [Yn cydymffurfio gyda holl ofynion cyfreithiol a rheolaethol ar gyfer y fenter a’i gweithgarwch yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru \(CIW\)](#)
- [Wedi cofrestru gyda CThEF](#)

- Mae Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a mathau eraill o yswiriant yn cwmpasu agweddau ar y gwasanaeth mae'r fenter yn eu cynnig
- Gwiriadau'r Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu (DBS) heb fod yn hyn na 3 blynedd oed ar gyfer unrhyw weithiwr
- Gweithdrefnau clir ar gyfer asesu anghenion y cleient, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu eu bodloni
- [Pob gweithiwr i ymgymryd â gweithgareddau ac i ddefnyddio offer y maent yn brofiadol, yn gymwys ac wedi cymwysu a'u hyswrio i'w darparu](#); a'u bod yn eglur ynghylch pa weithgareddau nad ydyn nhw'n gallu eu darparu. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynnig cefnogaeth gyda meddyginiaeth neu wrth godi a chario. Mae gweithwyr yn deall pan nad ydyn nhw bellach yn gallu cwrdd ag anghenion / gofynion y cleient a'u bod yn gallu eu cyfeirio at wasanaethau eraill fel sy'n briodol.
- [Pan fo gweithiwr yn sâl / ar wyliau, gall y fenter gyfeirio at wasanaethau eraill sy'n gallu darparu'r gweithgaredd y cytunwyd arno](#)
- [Deall canllawiau Cyngor Sir Benfro/Sir Gâr ar ddiogelu a sut i adrodd am unrhyw bryderon; yn ogystal â'i gwneud yn eglur i'r cleient / teulu sut allen nhw adrodd am bryderon](#)
- Canllawiau ar reoli risg ac asesiadau risg i'w cwblhau fel sy'n briodol
- Canllawiau ar GDPR a chyfrinachedd
- Cytundebau ysgrifenedig gyda chleientiaid neu eu cynrychiolwyr
- Mae gan gyflogwyr ganllawiau / polisïau priodol er mwyn i weithwyr ddeall eu cyfrifoldebau

Safon Uchel:

Mae'r gwasanaethau a'r gweithwyr yn cadw at 'God Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol' (2017): Mae hwn yn cynnwys saith adran:

1. Parchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau unigolion a gofalwyr.
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
3. Hyrwyddo llesiant, lais a rheolaeth unigolion a gofalwyr tra'n eu cefnogi i gadw'n ddiogel.
4. Parchu hawliau'r unigolion tra'n ceisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn achosi niwed iddynt hwy eu hunain na phobl eraill.
5. Gweithredu gyda gonestrwydd a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
6. Bod yn gyfrifol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
7. Yn ogystal ag adrannau 1 - 6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi ymgorffori'r Cod yn eu gwaith

[Gwelwch y 'Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol' \(2017\) yn llawn.](#)

- Sgyrsiau cychwynnol gyda'r cleient / cynrychiolydd yn trafod pa ganlyniadau fydden nhw'n hoffi eu cyflawni a sut fydden nhw'n hoffi cael eu cefnogi.
- Cynlluniau yn canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r person yn ganolbwynt iddynt ar gyfer pob cleient / cynrychiolydd, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Ymrwymadau, cytundebau a threfniadau i ddarparu gwasanaethau yn cael eu hanrhydeddu, a lle nad yw hi'n bosib gwneud hynny, mae eglurhad yn cael ei roi.
- Lle bynnag y bo'n bosib, sicrhau cysondeb o ran staff er mwyn adeiladu perthynas gefnogol a dealltwriaeth gyda'r cleient / teulu.
- Llinellau cyfathrebu clir ac ymatebol rhwng y cleient a'r fenter.
- [Gweithdrefn cwyno a chanmol eglur](#)
- Ymrwymiad i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus yn seiliedig ar adborth

Proffesiynol:

- Ffiniau proffesiynol gyda chleientiaid / teuluoedd yn cael eu cynnal
- [Prisio eglur, tryloyw a theg](#)
- Cyfnod hysbysebu eglur, wedi eu cytuno arnynt ar gyfer gwyliau a dod â'r gwasanaeth i ben
- Marchnata agored a thryloyw
- Gwybodaeth am fentrau ar gael ar-lein - er enghraifft drwy gyfeiriadur Catalyddion Gofal, Facebook a / neu www.dewis.wales / www.en.infoengine.cymru

Canllawiau 'Gwneud e'n lawn' ('Doing it Right')

Diogel a Chyfreithlon

Yn cydymffurfio gyda holl ofynion cyfreithiol a rheolaethol ar gyfer y fenter a'i gweithgarwch yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yn rheoleiddio gwasanaethau gofal yng Nghymru ac mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal gofrestru eu gwasanaeth gyda'r CIW. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau.

Mae microfentrau wedi eu heithrio rhag cael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) os:

1. Nad ydynt yn darparu unrhyw 'ofal'. Gweler t.33 a 34 yn y 'Domiciliary Support Services' [yma](#) am ddiffiniad CIW o Ofal' a 'Chefnogaeth'.
2. Mae'r unigolyn neu'r gweithiwr gofal hunangyflogedig yn 'gweithio o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y sawl sy'n derbyn gofal neu drydydd parti cysylltiedig yn unig' (gweler t.11 [yma](#)). Lle mae'r darparwr yn cynnwys mwy nag un unigolyn (h.y. gwasanaeth sy'n cyflogi eraill, partneriaeth neu gwmni), mae gwahanol reolau'n berthnasol - gweler pwynt 3 isod.
3. Mae gwasanaeth yn fwy nag un unigolyn ac mae'n darparu 'gofal' (neu ofal personol) i ddim mwy na phedwar cleient ar yr un pryd.

Nid yw'r rhan fwyaf o microfentrau wedi eu cofrestru gyda'r CIW / neu eu bod yn anrheoleiddiedig oherwydd nad ydynt yn dilyn un o'r eithriadau a restrir uchod. Mae cyfeiriadur Catalyddion Gofal yn dangos os oes unrhyw microfentrau nad ydynt wedi eu cofrestru gyda CIW / neu fentrau anrheoleiddiedig yn y disgrifiad o'u gwasanaeth.

Mae'n rhaid i microfentrau anrheoleiddiedig fod bob amser yn cael eu cyfarwyddo, eu rheoli a'u cydlynu gan y cleient neu eu cynrychiolydd cyfreithiol.

Mewn achos lle mae'r cleient yn cytundebu gyda mwy nag un microfenter, mae'n rhaid iddyn nhw neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, gyfarwyddo, rheoli a chydlynu pob un o'r microfentrau ar wahân. Beth na ddylai ddigwydd yw bod microfenter anrheoleiddiedig yn cyfarwyddo, rheoli neu gydlynu microfentrau eraill ar ran y cleient. Mae hyn yn cynnwys creu rotas ar gyfer microfentrau / darparwyr, is-gontractio / talu microfentrau eraill a gwneud unrhyw benderfyniadau ar ran y person sy'n derbyn gofal neu eu cynrychiolydd cyfreithiol. Yn yr achos yma mae'r microfenter sy'n cydlynu yn gweithredu fel asiantaeth a dylai felly fod wedi cofrestru gyda'r CIW.

Gall microfenter anrheoleiddiedig gyflwyno microfentrau eraill i gleient, ond yng ngeiriau'r CIW, ni ddylent gael 'rheolaeth sydd mewn grym' (gweler t.39 a 40 [yma](#) ar gyfer eglurhad y CIW o'r hyn sy'n cael ei ystyried i fod yn 'rôl sydd mewn grym').

Wedi cofrestru gyda CThEF

Microfentrau sy'n penderfynu ar eu statws busnes. Fel arfer, bydd hyn yn naill ai hunangyflogedig, partneriaeth neu gwmni cyfyngedig bach. **Cyfrifoldeb y cleient neu eu cynrychiolydd cyfreithiol yw gwneud y gwiriadau priodol ar gyfer microfentrau, gan gynnwys eu statws cyflogaeth.**

Mae'r rhan fwyaf o microfentrau wedi eu sefydlu fel gwasanaethau hunangyflogedig. Nid mater o ddewis yw bod yn hunangyflogedig; mae hyn yn cael ei benderfynu gan yr amodau a thelerau penodol y mae'r microfentrau yn gweithredu oddi tanynt. Er enghraifft, os yw microfenter hunangyflogedig ond yn cefnogi un cleient gyda dim bwriad o adeiladu cysylltiadau gyda nifer o gleientiaid eraill, byddent yn cael eu dosbarthu gan CThEF fel 'cyflogedig' gan y cleient, gan wneud y cleient yn gyfrifol am hawliau'r gweithiwr megis tâl salwch, pensiwn a gwyliau a threth heb ei dalu. Y penderfynyddion cryf o ran statws hunangyflogaeth yw: mae'r microfenter yn gweithio gyda nifer o gleientiaid, maent yn hyrwyddo eu gwasanaeth gyda'r bwriad o adeiladu achos cleient (er enghraifft, bod yn rhan o gyfeiriadur Catalyddion Gofal), yn talu eu treth / Yswiriant Gwladol eu hunain ac nid ydynt yn cael tâl gwyliau / salwch. [Gweler gwybodaeth bellach am y ffurflen hon gan CThEF.](#)

Er mwyn gwirio statws hunangyflogedig microfenter, gallwch hefyd ofyn iddynt gwblhau [Erfyn gwirio statws cyflogaeth ar gyfer treth](#). Os mai 'cyflogedig at bwrpas treth' yw'r canlyniad, mae hynny'n golygu eich bod chi i bob pwrpas yn gweithredu fel cyflogwr yn y berthynas ac y dylech chi fod yn gyfrifol am hawliau gweithwyr megis tâl salwch, pensiwn a gwyliau a threth sydd heb ei dalu; neu o'i roi mewn ffordd arall, nid yw'r gwasanaeth yn gweithredu fel menter hunangyflogedig / partneriaeth neu wasanaeth(au) hunangyflogedig. Ni ddylai hyn gael ei dderbyn. Dylai canlyniad y twlsyn ddangos 'hunangyflogedig at bwrpas treth' neu 'nid yw'n bosib gwneud penderfyniad'. Mae'r olaf yn dangos yn aml oherwydd cyfyngiadau gyda'r twlsyn gan ei fod yn gyffredinol ar gyfer pob sector, gan gynnwys adeiladu a lletygarwch, nid dim ond gofal / cefnogaeth. Gall cleientiaid hefyd ofyn am rif 'Cyfeirnod Treth Unigryw' y microfenter hunangyflogedig.

Ar gyfer partneriaethau (fel arfer dau unigolyn hunangyflogedig sydd wedi cofrestru ar y cyd fel partneriaeth gan ddefnyddio'r un enw busnes), gall cleientiaid wneud yr un gwiriadau ar gyfer gwirio statws hunangyflogedig ag a ddisgrifir uchod.

Ar Gyfer Cwmnïau Cyfyngedig, gallwch [wirio os ydynt wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau](#).

Pob gweithiwr i ymgymryd â gweithgareddau ac i ddefnyddio offer y maent yn brofiadol, yn gymwys ac wedi cymwysu a'u hyswiro i'w darparu; a'u bod yn eglur ynghylch pa weithgareddau nad ydynt yn gallu eu darparu. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynnig cefnogaeth gyda meddyginiaeth neu wrth godi a chario. Mae gweithwyr yn deall pan nad ydyn nhw bellach yn gallu cwrdd ag anghenion / gofynion y cleient a'u bod yn gallu eu cyfeirio at wasanaethau eraill fel sy'n briodol.

Cyfrifoldeb y microfentrau yw sicrhau bod eu hyfforddiant yn gyfredol a'u bod yn gallu rhoi tystiolaeth o hyfforddiant priodol i ddarparu gleientiaid. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gefnogi gyda meddyginiaethu a / neu godi a chario oherwydd y lefel uwch o risg sy'n gysylltiedig gyda'r math yma o gefnogaeth ac o bosib bod y cyfrifoldeb ar y microfenter pe bai unrhyw broblemau'n codi.

Wrth **gefnogi gyda meddyginiaeth**, dylai microfentrau:

1. **Gadarnhau gyda'u darparwr yswiriant eu bod yn cael eu diogelu rhag hyn** er mwyn cefnogi gyda rhoi meddyginiaethau sy'n ofynnol gyda'u hyfforddiant / cymwysterau presennol. Gwirio prun ai a oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol er mwyn darparu'r feddyginiaeth. Nodwch os gwelwch yn dda fod y gefnogaeth gyda thasgau sy'n berthnasol i ofal iechyd neu feddyginiaethau mewnlifol (e.e. pigiad inswlin neu dawddgyffur Valium) angen polisi yswiriant gofal iechyd arbenigol; ac nid yw ond yn gallu cael ei ddarparu dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol iechyd cymunedol (gweler pwynt 4 isod am fwy o fanylion ynghylch hyn).
2. **Dylech gael caniatâd gan gleient / eu cynrychiolydd cyfreithiol drwy ffurflen awdurdodi** er mwyn i chi roi cefnogaeth gyda'r feddyginiaeth, gan nodi'n ysgrifenedig yn union beth a sut rydych wedi cytuno i'w cefnogi. Mae hyn oherwydd mai di ond rhoi cymorth gyda meddyginiaeth o dan gyfarwyddyd y person sy'n derbyn gofal neu'r sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol y gall y microfentrau ei wneud. Yn ogystal â hyn dylai unrhyw dasgau sy'n berthnasol i ofal iechyd neu feddyginiaethau mewnlifol (e.e. pigiad inswlin neu dawddgyffur Valium) ond gael ei ddarparu dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol iechyd cymunedol. Mewn achosion o'r fath, dylai trefniadau gael eu cytuno arnynt a'u dogfennu rhwng y gweithiwr iechyd proffesiynol a'r microfenter (gweler pwynt 4 isod am fwy o wybodaeth ynghylch hyn).
3. **Cwblhau MAR** (Cofnod Rhoi Meddyginiaeth) er mwyn cofnodi gyda beth rydych chi wedi ei gefnogi a phryd.
4. **Os oes rhywun yn gofyn i unrhyw feddyginiaethau mewnlifol neu dasgau gofal iechyd mewnlifol gael eu darparu** (e.e. pigiad inswlin neu dawddgyffur Valium), dim ond o dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol iechyd cymunedol y gall y microfenter wneud hyn, hyd yn oed os yw wedi cael ei hyfforddi i roi meddyginiaeth fewnlifol. Golyga hyn bod gweithiwr proffesiynol iechyd cymunedol wedi hyfforddi microfenter i ddefnyddio'r math penodol hwn o feddyginiaeth a'i bod yn gyfrifol am wirio ei bod yn cael ei rhoi'n gywir. Mewn achosion o'r fath, dylai trefniadau gael eu cytuno arnynt a'u dogfennu rhwng y gweithiwr iechyd proffesiynol a'r microfenter. Am ragor o wybodaeth, ewch i: [Dirprwyo tasg gofal iechyd i gynorthwy-wyr personol \(GIG Cymru\)](#) a siarad gyda'ch darparwr yswiriant.

Offer a chymhorthion symud:

Mae'n rhaid i microfentrau fod â'r hyfforddiant priodol er mwyn defnyddio offer a chymhorthion symud. Gall yr hyfforddiant hwn gael ei ddarparu gan y person eu hunain.

Dylai microfentrau wirio eu hyswiriant er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi cael eu diogelu rhag hyn os oes damwain yn digwydd i'r cleient wrth ddefnyddio cymhorthion / offer symud.

Pan fo gweithiwr yn sâl / ar wyliau, gall y fenter gyfeirio at wasanaethau eraill sy'n gallu darparu'r gweithgaredd y cytunwyd arno

Mewn achosion o ganslo funud diwethaf:

Cyn dechrau'r gwasanaeth, mae'n rhaid i'r ficrofenter a'r cleient / y sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol fod yn hapus bod yna gynlluniau wrth gefn addas yn eu lle rhag ofn bod gofyn canslo ar y funud olaf (os yw'r ficrofenter yn sâl er enghraifft). Enghreifftiau o gynlluniau wrth gefn:

- Os yw'r person ond angen lefel isel iawn o gymorth a bod y ficrofenter a'r cleient / y sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol yn cytuno na fyddai'r person mewn sefyllfa fregus pe bai ymweliad yn cael ei ohirio ac y gellir ei aildrefnu.
- Bod aelodau o'r teulu / ffrindiau agos yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n gallu camu i mewn i ddarparu cefnogaeth os oes ymweliad yn cael ei ganslo. Gall grŵp WhatsApp Argyfwng gael ei greu er mwyn cyfathrebu canslo'r ymweliad ac i drefniadau amgen gael eu rhoi yn eu lle drwy aelod o'r teulu / ffrind agos sydd wedi eu hadnabod.
- Os yw'r person mewn cytundeb gyda mwy nag un microfenter er mwyn sicrhau ymweliadau mwy aml, gall y cleient / y sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol a'r holl ficrofentrau sy'n gysylltiedig gwrdd er mwyn trafod a chytuno ar gynlluniau wrth gefn er mwyn cwmpasu opsiynau rhwng aelodau o'r teulu / ffrindiau agos a'r microfentrau.

Os nad oes cynllun call wrth gefn ar gyfer achosion o ganslo munud diwethaf, yna ni fyddai'r ficrofenter / microfentrau yn addas.

Wrth roi trefniadau wrth gefn yn eu lle ar gyfer gwyliau, yr arfer gorau yw:

- Bod hysbysiad priodol yn cael ei roi os yw'r absenoldeb yn gysylltiedig gyda gwyliau neu amser i ffwrdd sydd wedi'i drefnu, fel y cytunwyd yn y contract cytundeb gwasanaeth.
- Os yw'r cleient angen rhywun wrth gefn ar gyfer yr absenoldeb hwn, byddant yn rhoi gwybod i'r ficrofenter a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i adnabod a chyflwyno person wrth gefn, gyda chydysyniad y cleient.
- Os yw person wrth gefn addas yn cael ei ganfod, mae angen iddynt fod wedi cymhwyso'n briodol, yn gymwys ac wedi eu hyswirio i ddarparu'r gwasanaethau. Mae'r cleient yn gyfrifol am wneud eu hasesiad eu hunain ac am wneud penderfyniad i ymwneud gyda'r gwasanaeth wrth gefn.
- Dylai unrhyw berson wrth gefn gytuno / llofnodi eu contract cytundeb gwasanaeth gyda'r cleient a chael ei dalu'n uniongyrchol gan y cleient.
- Os nad oes modd dod o hyd i berson wrth gefn addas, neu mae'r person yma yn cael ei wrthod, cyfrifoldeb y teulu yw dod o hyd i ddewis amgen.

Dealltwriaeth o ganllawiau Cyngor Sir Benfro/Sir Gâr/Ceredigion ar ddiogelu a sut i adrodd am unrhyw bryderon; yn ogystal â'i gwneud yn eglur i'r cleient / y sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol sut allant adrodd am bryderon

Os yw microfenter neu gleient /cynrychiolydd cyfreithiol yn adnabod mater diogelu - rhywbeth sy'n cyfaddawdu diogelwch y bobl maent yn gweithio gyda hwy - dylent gysylltu gyda:

Sir Benfro:

- Tîm Diogelu Oedolion Cyngor Sir Penfro: 01437 776056 / adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk
- Gweler [Canllawiau diogelu Cyngor Sir Penfro](#)

Sir Gâr:

- Tîm Diogelu Oedolion Cyngor Sir Gâr: 0300 333 2222, Safeguarding@carmarthenshire.gov.uk
- Gweler [Polisi Diogelu Cyngor Sir Gâr](#)

Ceredigion:

- Tîmau Diogelu Cyngor Sir Ceredigion: 01545 574000
- Gweler [Canllawiau diogelu Cyngor Sir Ceredigion](#)

Proffesiynol

Prisio eglur, tryloyw a theg

Fel busnesau bychain, annibynnol mae gan microfentrau y rhyddid i osod eu cyfraddau eu hunain. Fodd bynnag, mae microfentrau sy'n cael budd o gyfeiriadur a rhwydwaith cefnogaeth Catalyddion Gofal wedi ymrwymo i'r safonau prosiect 'Gwneud e'n lawn' ('Doing it Right') yn cynnwys ymrwymiad i gael 'prisio eglur, tryloyw a theg'.

Gweithdrefn mynegi pryder / cwyno Catalyddion Gofal

- Os oes gan gleient /cynrychiolydd cyfreithiol unrhyw adborth, pryderon neu gwynion ynghylch eu gwasanaeth microfenter yna dylent gyfathrebu hyn yn syth wrth y ficrofenter a cheisio datrys y mater ar y cyd.
- Os yw cleient /cynrychiolydd cyfreithiol yn adnabod mater diogelu - rhywbeth sy'n cyfaddawdu diogelwch y cleient, gallant gysylltu gyda'u tîm diogelu awdurdod lleol (gweler t. 7 uchod)
- Os oes gan gleient / cynrychiolydd cyfreithiol bryder difrifol / cwyn am ficrofenter nad ydynt yn gallu ei datrys yn uniongyrchol gyda'r ficrofenter, gallant drafod unrhyw bryderon / cwynion gyda phrosiect Catalyddion Gofal trwy gysylltu
 - Yn Sir Benfro: Lee James lee.james@planed.org.uk / 07535 810003
 - Yn Sir Gâr: Tracey Jones tracey.jones@planed.org.uk / 07789 793228
 - Yng Ngheredigion: Sue Lewis sue.lewis@planed.org.uk / 07442 681883
- Bydd unrhyw bryderon neu gwynion yn cael eu prosesu gan ddilyn trefn mynegi pryderon / cwynion y prosiect isod:

Gweithdrefn mynegi pryder / cwyno Catalyddion Gofal

- Gofynnir i'r cleient neu'r sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol gadarnhau'r adroddiad / cwyn - os nad yw'n cael ei dderbyn yn uniongyrchol ganddynt hwy. Gofynnir iddynt a hoffent fynegi pryder / wneud cwyn yn dilyn y broses sydd wedi'i hamlinellu yma.
- Bydd pryder / cwyn y cleient / y sawl sy'n eu cynrychioli'n gyfreithiol yn cael ei gofnodi (nodiadau ysgrifenedig y cytunwyd arnynt neu recordiadau fideo / sain).
- Gofynnir i'r ficrofenter / microfentrau dan sylw ac unrhyw bersonau priodol eraill (er enghraifft, y gweithiwr cymdeithasol cysylltiedig) egluro'r sefyllfa o'u safbwynt hwy, a bydd yn cael ei gofnodi fel uchod.
- Yna bydd aelodau o fwrdd prosiect Catalyddion Gofal yn asesu'r wybodaeth ac unrhyw ffactorau lliniarol er mwyn cytuno ar y ffordd ymlaen. Er enghraifft: does dim angen cymryd unrhyw gamau pellach; mae'r ficrofenter yn derbyn rhybudd; gofynnir i'r ficrofenter ddangos tystiolaeth eu bod wedi datrys y mater yn eu hymarfer; neu fel dewis olaf, bod prosiect Catalyddion Gofal yn cadw'r hawl i dynnu microfenter oddi ar y cyfeiriadur a'r rhwydwaith os oes tystiolaeth glir eu bod yn arddangos achosion o wasanaeth anniogel neu lefel o amhroffesiynoldeb sy'n annerbyniol.

Mae'r broses hon wedi cael ei rhoi yn ei lle er mwyn helpu i sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaeth diogel a phroffesiynol gan ficrofentrau sy'n rhan o gyfeiriadur / rhwydwaith Cyngor Sir Penfro, Sir Gâr a Cheredigion; ac i amddiffyn enw da ac ymddiriedaeth yr holl wasanaethau safonol sy'n rhan ohonynt.